Siarter

Camau cadarnhaol i ymdrin â cham-drin pobl hŷn gyda'n gilydd

Wynebu'r ffeithiau am gam-drin pobl hŷn

- Mae cam-drin yn bodoli mewn llawer o ffurfiau gan gynnwys: corfforol; ariannol; emosiynol; rhywiol ac esgeuluso.
- Mae gan Gymru'r cyffredinrwydd uchaf o gam-drin pobl hŷn yn y DU gyda chyfradd o 6%,o'i gymharu â 4.3% yn yr Alban, 3.9% yn Lloegr a 3% yng Ngogledd Iwerddon.[1] Yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth, rydym yn credu bod hyn yn gyfystyr â 39,000 o bobl hŷn yng Nghymru yn cael eu cam-drin yn eu cartrefi eu hunain.
- Mae hyn yn debygol o fod yn nifer sy'n weladwy yn unig, oherwydd ni ystyriodd yr astudiaeth hon y bobl mewn cartrefi gofal, ysbytai, a'r rhai sydd â dementia.
- Gall cam-drin ddigwydd yn unrhyw le. Mae'n digwydd yng nghartrefi pobl, mewn cartrefi gofal, mewn ysbytai, canolfannau dydd ac mewn lleoliadau a chymunedau preswyl eraill.
- Mae 93% o oedolion yng Nghymru yn credu bod arnom angen cyfraith newydd i amddiffyn pobl hŷn rhag cam-drin, camdriniaeth ac esgeulustod.[2]
- Mae 22% o bobl wedi adrodd eu bod wedi gwybod am sefyllfa lle roeddent wedi meddwl bod rhywun hŷn yn dioddef o gam-drin, camdriniaeth neu esgeulustod.[3]
- Mae'r rhan fwyaf o gyfeiriadau yn ymwneud ag oedolion yn cael eu cam-drin yn cynnwys pobl 65 oed ac yn hŷn ac mae 69% o'r grŵp hwn yn fenywod.[4]
- Mae cam-drin pobl hŷn yn drosedd yn erbyn hawliau dynol ac yn achos sylweddol o anafiadau, salwch, cynhyrchiant coll, unigedd ac anobaith.[5]
- Gan amlaf, caiff cam-drin ei gyflawni gan bobl y mae'r dioddefwr yn ymddiried ynddynt ac y mae ganddynt berthynas ag ef/hi.

Cafodd yr holl astudiaethau achos yn y siarter hon eu cyflwyno i brosiect Cam-drin pobl hŷn Age Cymru a fu'n gweithio i ymdrin â cham-drin pobl hŷn a datblygu eiriolaeth yng Nghymru er 2006.

Camau cadarnhaol i fynd i'r afael â cham-drin pobl hŷn gyda'n gilydd

Rydym yn credu na ddylai unrhyw oedolyn fod yn gorfod goddef cael ei gam-drin. Gellir gwneud mwy i amddiffyn oedolion mewn perygl drwy godi ymwybyddiaeth a chryfhau prosesau amddiffyn oedolion, fel y rhoddir y flaenoriaeth mae'n ei haeddu ar fynd i'r afael â cham-drin oedolion.

Mae'r siarter hon yn amlinellu camau gweithredu a fydd yn ein grymuso i gyd i roi diwedd ar gam-drin. Cafodd y galwadau hyn eu hadnabod drwy ymgysylltu â phobl hŷn, pobl broffesiynol sy'n gweithio yn y maes amddiffyn oedolion, gwneuthwyr polisïau a sefydliadau eraill fel rhan o brosiect Cam-drin pobl hŷn Age Cymru.

Gallwch ddangos eich cred y gallwn roi diwedd ar gam-drin drwy lofnodi'r siarter.
Gallwch lofnodi'r siarter mewn dau ffordd:

- llofnodi a dychwelyd y slip amgaeedig
- llofnodi ar-lein yn: www.agecymru.org.uk/ruleoutabuse

I ddarganfod mwy am sut y gallwch gefnogi'r ymgyrch Diwedd Ar Gam-drin, cysylltwch â:

campaigns@agecymru.org.uk

Diwedd Ar Gam-drin
Age Cymru,
Tŷ John Pathy,13/14 Cwrt Neptune
Ffordd Blaen y Gad, Caerdydd, CF24 5PJ

t: 029 2043 1555

Diwedd ar gam-drin: siarter

Er gwaethaf amcangyfrifon bod tua 39,000 o bobl hŷn yng Nghymru yn dioddef o gam-drin yn eu cartrefi eu hunain, cyfanswm y cyfeiriadau o ran cam-drin oedolion a gafwyd yn 2009-2010 oedd 4,913[6] yn unig.

Mae'r gwahaniaeth hwn rhwng cyffredinrwydd cam-drin a chyfraddau adrodd yn bryder sylweddol. O ganlyniad rydym yn credu nad yw llawer o oedolion yn cael eu hamddiffyn gan weithdrefnau amddiffyn oedolion cyfredol, ac maent mewn perygl parhaus o gael niwed. Cynyddodd nifer y cyfeiriadau ynglŷn â cham-drin oedolion a gwblhawyd yng Nghymru gan 9% yn 2009-2010, o'i gymharu â chynnydd o 4% yn y flwyddyn flaenorol [7]. Mae'n bosibl bod hyn yn dangos mwy o ymwybyddiaeth a pharodrwydd i adrodd am gam-drin a ddrwgdybir, ac mae'n arwydd o ymdrechion llawer o unigolion, pobl broffesiynol a sefydliadau. Fodd bynnag, mae mwy y gallwn ei wneud.

Rydym yn credu na ddylai unrhyw oedolyn ddioddef cam-drin, a chyda'n gilydd gallwn roi diwedd arno. Gellir gwneud mwy i amddiffyn oedolion mewn perygl drwy gynyddu ymwybyddiaeth a chryfhau prosesau amddiffyn oedolion. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ymchwilio i achosion o gam-drin neu gam-drin posibl. Byddai dyletswyddau a hawliau cliriach yn sicrhau y rhoddir y flaenoriaeth mae'n ei haeddu i amddiffyn oedolion ac yr ymgymerir ag ef yn statudol.

Rydym yn credu bod deddfwriaeth yn rhan hanfodol o ddiogelu oedolion: mae ganddi'r gallu i osod pwerau a dyletswyddau statudol fel yr ymgymerir ag amddiffyn oedolion yn effeithiol gan bob asiantaeth allweddol. Mae deddfwriaeth yn un o ystod o offer y mae angen eu defnyddio er mwyn amddiffyn oedolion rhag cael eu cam-drin, gan gynnwys polisïau wedi'u hadnewyddu, hyfforddiant, mwy o ymwybyddiaeth gyhoeddus a mynediad at wasanaethau eirioli, ac arweiniad cryfach. Rydym wedi llunio dogfen dystiolaeth fanwl i gefnogi ein galwadau, sydd ar gael o www.agecymru.org.uk/ruleoutabuse

Rydym yn credu bod pwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gynyddwyd yn ddiweddar a'r Mesur Gofal Cymdeithasol (Cymru) sydd ar ddod yn darparu cyfle hanfodol i Lywodraeth Cymru gryfhau gweithdrefnau amddiffyn oedolion drwy ddyletswyddau ac arweiniad cadarn ar gyfer y sefydliadau hynny a fydd yn dod i gysylltiad ag oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin.

Seilir y siarter hon ar tri egwyddor allweddol:

- **blaenoriaethu diogelwch**
- **amddiffyn rhag niwed a pharchu dewisiadau**
- **amddiffyn yr hawl i urddas a pharch.**

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ardystio i'r siarter hon a chymryd camau pendant i weithredu fframwaith cyfreithiol er mwyn sicrhau y caiff pob oedolyn yng Nghymru ei amddiffyn rhag cael eu cam-drin ac y cynhelir eu hawliau dynol.

Egwyddor 1: blaenoriaethu diogelwch

Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu a chryfhau arweiniad i sicrhau bod pob asiantaeth yn ymrwymo i fynd i'r afael â cham-drin oedolion fel blaenoriaeth. Mae'n rhaid i unrhyw fframwaith deddfwriaethol sicrhau bod yr unigolyn mewn perygl o niwed gwirioneddol wrth wraidd unrhyw asesiad, penderfyniad neu gam gweithredu a gymerir.

I wneud amddiffyn oedolion yn flaenoriaeth dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno:

Dyletswydd i ymchwilio i bryderon ynglŷn â cham-drin

Byddai dyletswydd i ymchwilio i gam-drin posibl yn sicrhau ymagwedd amserol a chyson at ymchwilio ac asesu risg ledled Cymru, fel bod oedolion a gafodd eu cam-drin yn cael eu hamddiffyn a chaiff pob mesur priodol ei weithredu'n effeithiol.

Dyletswydd i rannu gwybodaeth

Mae'n rhaid rhannu gwybodaeth cyn gynted ag y bo modd fel bod gan ymchwiliad neu archwiliad dilynol adroddiad llawn o angen ac amgylchiadau unigolyn, yn ogystal â cham-drin a ddrwgdybir, a cham-drin gwirioneddol, cyfredol neu hanesyddol.

Dyletswydd i gydweithredu mewn ymchwiliadau

Byddai dyletswydd ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, iechyd, yr heddlu, a thai, i gydweithredu yn sicrhau bod pob asiantaeth yn dod â'i arbenigedd penodol i'r gweithdrefnau amddiffyn oedolion. Byddai'r ddyletswydd hon yn golygu y byddai gofyn i'r staff sydd â'r sgiliau a phwerau mwyaf priodol wneud ymholiadau, cefnogi ymchwiliadau a lleihau'r risg o gam-drin posibl.

Dyletswydd ar weithwyr i adrodd ar bryderon am gam-drin posibl

Dylai staff proffesiynol a ddiffinnir, gan gynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, fod o dan ddyletswydd i ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed, sy'n cynnwys adrodd cam-drin i'r awdurdodau perthnasol. Byddai dyletswydd i adrodd yn rhoi mwy o hyder i'r staff yr eir i'r afael â cham-drin a ddrwgdybir.

Ymosodwyd ar Mrs Z gan ei merch a'i mab. Cafodd ei hysgwyd yn dreisgar a'i thaflu i'r llawr a achosodd llawer o gleisiau ar ei chorff. Pan gyrhaeddodd yr heddlu dywedodd ei mab wrthynt am anwybyddu beth bynnag a ddywedodd ei fam oherwydd ei bod yn "hen a ffwndrus". Ar ôl cysylltu â'r gwasanaethau eraill a chasglu tystiolaeth ddigonol, gan gynnwys adroddiadau meddygol, cafodd mab a merch Mrs Z eu harestio a'u cyhuddo o achosi gwir niwed corfforol (ABH). Wedyn derbyniodd Mrs Z gymorth gan eiriolwr annibynnol a gefnogodd Mrs Z drwy brosesau amddiffyn oedolion ac i gysylltu â'r heddlu, ei chyfreithwyr a phobl broffesiynol eraill. Roedd gweithio ar y cyd, cydweithredu a rhannu gwybodaeth yn hanfodol wrth amddiffyn Mrs Z rhag rhagor o gam-drin.

Egwyddor 2: amddiffyn rhag niwed a pharchu dewisiadau

Mae'n rhaid i'r unigolyn mewn perygl fod yn ganolog i'r holl waith amddiffyn oedolion: dylai eu barnau a'u dymuniadau arwain sut gwneir penderfyniadau a sut y cymerir camau gweithredu i reoli risg. Mae'n rhaid i rymuso unigolion i gydnabod risg a chynnal eu hunain fod yn werth craidd amddiffyn oedolion.

Er mwyn cyflawni cydbwysedd rhwng amddiffyn a dewis dylai Llywodraeth Cymru:

Gyflwyno dyletswydd i ddarparu cymorth eirioli annibynnol yn ôl y gofyn

Mae eiriolaeth yn amhrisiadwy er mwyn sicrhau y cynhelir hawliau dynol. Mae pobl yn arbennig o agored i niwed pan fyddant yn cael eu cam-drin ac yn aml nid oes ganddynt neb i wrando ar eu hofnau, i'w cefnogi i wneud dewisiadau gwybodus a'u llywio trwy gymhlethdodau ymchwiliadau ynglŷn ag amddiffyn oedolion. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau y cynigir cymorth i ddioddefwyr honedig gan eiriolwr annibynnol cyn gynted ag y bo modd er mwyn sicrhau eu bod wrth ganol penderfyniadau ynglŷn â'u bywyd.

Grymuso oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin

Dylai pobl sydd mewn perygl o gael eu cam-drin fod wrth ganol unrhyw benderfyniadau a wneir am sut i reoli'r risg hwnnw orau. Ar gyfer y rai sy'n cadw'r gallu i wneud penderfyniadau gwybodus am sut i gadw eu hunain yn ddiogel rhag niwed, dylid gwneud pob ymdrech i'w cynnwys yn ystyrlon mewn prosesau amddiffyn a sicrhau bod penderfyniadau a wneir yn seiliedig ar gydsyniad gwybodus.

Adolygu a diweddaru diffiniad oedolyn sy'n agored i niwed

Mae'r diffiniad cyfredol[8] yn cyfyngu gweithdrefnau amddiffyn oedolion i'r rhai sydd angen neu efallai angen gwasanaethau gofal cymdeithasol ac na allant amddiffyn eu hunain rhag niwed neu escsbloetiaeth sylweddol. Ni ddylid diffinio agoredrwydd i niwed fel angen neu dderbyn gwasanaethau: mae'n benodol i'r sefyllfa ac nid yw o reidrwydd yn gyflwr parhaol, gyda'r cymorth priodol. Gall cam-drin wneud rhywun yn hynod o agored i niwed ni waeth a oes arnynt angen gwasanaethau, ac mae gan y bobl hynny gymaint o hawl i gael eu hamddiffyn rhag cam-drin a chynnal eu hawliau dynol ag unrhyw un arall.

'Cwympodd' Mrs M ddwywaith ac aethpwyd â hi i'r ysbyty ar y ddau achlysur. Pan roedd hi yn yr ysbyty cymerodd ei gŵr reolaeth lwyr dros ei harian a gwrthododd iddi gael mynediad ato. Hefyd ni chafodd wneud ei phenderfyniadau ei hun. Pan ddychwelodd adref adroddodd ar hyn, a'r ffaith ei bod yn cael ei cham-drin yn gorfforol ac yn rhywiol, i'w chymydog, a adroddodd am hynny i warden. Pan ddaeth y gŵr yn ymwybodol o'i honiadau, gwelodd y warden ef yn bwrw Mrs M. Gwnaethpwyd cyfeiriad i wasanaethau cymdeithasol a chychwynnodd gweithiwr cymdeithasol ymchwiliad. Daethpwyd â hyn i ben pan ddywedodd meddyg Mrs M nad oedd wedi gweld unrhyw dystiolaeth o gam-drin. Ni chafodd cymorth eirioli ei gynnig.

Egwyddor 3: hyrwyddo ein hawl i urddas a pharch

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ei wneud yn anghyfreithlon i gorff cyhoeddus weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â'r hawliau a fynegwyd yn y Ddeddf sy'n cynnwys: yr hawl i barch at fywyd preifat; yr hawl i beidio â chael eich trin mewn ffordd greulon neu ddiraddiol; yr hawl i fywyd. Dylai deddfwriaeth amddiffyn oedolion adlewyrchu'r gwerthoedd a'r rhyddid sylfaenol hyn, a chael ei seilio ar egwyddorion o degwch, parch, cydraddoldeb ac urddas.

Er mwyn hyrwyddo hawl pobl hŷn i urddas a pharch dylai Llywodraeth Cymru:

Amddiffyn oedolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain

Dylai'r rhai sy'n ariannu eu gofal eu hunain neu'n rheoli eu darpariaeth gofal eu hunain dderbyn yr un amddiffyniad rhag cael eu cam-drin â'r rhai sy'n derbyn cymorth a ariennir gan y wladwriaeth. Dylai awdurdodau lleol gynnig adolygiadau rheolaidd o'r rhai sy'n ariannu eu gofal eu hunain fel y gellir monitro eu hanghenion a'u diogelwch.

Hyrwyddo hawliau dynol a buddion gorau

Dylai amddiffyniad fod yn gymesur â hapusrwydd a lles. Ni ddylai amddiffyn rhag niwed fod ar draul rhinweddau bywyd eraill, megis hunanbenderfyniad, urddas a'r hawl i fywyd teuluol. Mae'n rhaid cyrraedd pob penderfyniad ynglŷn â gweithdrefnau amddiffyn oedolion gyda'r unigolyn yn eu canol. "Pa fudd sydd mewn gwneud rhywun yn fwy diogel os yw'n ei wneud yn ddiflas? Dim o gwbl!"[9]

Cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus ledled Cymru i gynyddu dealltwriaeth o gam-drin

Dylai fod ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth o gam-drin oedolion, sut i'w adnabod a'r hyn y gellir ei wneud i'w atal rhag dechrau neu barhau. Gall cymunedau chwarae rhan mewn atal, canfod ac adrodd cam-drin ac mae'n hanfodol ein bod yn grymuso pobl yng Nghymru i amddiffyn eu hunain ac eraill yn well rhag cael eu cam-drin.

Cafodd Mr. D ei dderbyn i gartref preswyl am gyfnod cychwynnol o 2 wythnos oherwydd bod ganddo broblemau iechyd tymor byr. Dair blynedd a hanner yn ddiweddarach ni chafodd unrhyw drefniadau eu gwneud i ganiatáu i Mr D ddychwelyd adref, er gwaethaf ceisiadau parhaus i wasanaethau cymdeithasol a rheolwr y cartref preswyl. Roedd Mr. D yn teimlo ei fod wedi mynd yn angof, doedd neb yn pryderu am ei ddymuniadau ac roedd yn garcharor heb ffordd o ddianc. Roedd ganddo broblemau symudedd ond roedd yn gallu ymdopi gyda lefelau priodol o gymorth a chyfarpar. Cafodd ei gyfeirio at wasanaeth eirioli lleol a chefnogodd yr eiriolwr Mr D i wneud cais i weithiwr cymdeithasol gael ei benodi ar frys er mwyn hwyluso ei ryddhau i'w gartref. Yn anffodus bu farw Mr. D cyn i weithiwr cymdeithasol gael ei benodi.

[1] Adran Iechyd, UK Study of Abuse and Neglect of Older People - Prevalence Survey Report, Mehefin 2007, t73

[2] Arolwg barn ICM ar gyfer Age Concern Cymru a Help the Aged Cymru , Chwefror 2009. Sampl: 1330 o oedolion Cymru 18+ oed

[3] Ibid

[4] Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Adroddiad Monitro Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed 2009 – 2010, Mai 2011, t11

[5] Sefydliad Iechyd y Byd, Active Ageing, A Policy Framework, 2002, t29

[6] Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Adroddiad Monitro Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed 2009 – 2010, Mai 2011, t7.

[7] Ibid

[8] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mewn dwylo diogel: rhoi gweithdrefnau amddiffyn oedolion ar waith yng Nghymru, Gorffennaf 2000, t52

[9] At what point is safeguarding abuse? Anerchiad gan Yr Arglwydd Ustus Munby i'r Gynhadledd ar Gamau Gweithredu ar Gam-drin yr Henoed: The Role of Lawyers in Safeguarding Adults", 19 Ionawr 2011

Os hoffech gefnogi ein gwaith hanfodol o gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl hŷn yng Nghymru, yna cysylltwch â'r tîm codi arian yn Age Cymru ar **029 2043 1555**, neu ewch i **www.agecymru.org.uk/donate** os gwelwch yn dda.

Elusen gofrestredig 1128436 yw Age Cymru. Mae'n gwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi ei gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284.
Cyfeiriad y Swyddfa Gofrestredig: Age Cymru, Tŷ John Pathy, 13/14 Neptune Court, Vanguard Way, Caerdydd, CF24 5PJ.
Mae Age Cymru yn gweithio ar lefel genedlaethol a lleol dros Gymru i wella bywyd pob unigolyn hŷn. © Age Cymru 2011
Caiff eich manylion cyswllt eu storio gan Age Cymru ac ni chânt eu trosglwyddo i drydydd partïon. Gallwch dynnu'n ôl o'n system bostio unrhyw bryd drwy gysylltu â ni.